

Ffurflen Ganiatâd 2: Cydsyniad rhywun â chyfrifoldeb rhiant i roi archwiliad neu i ddarparu triniaeth i blentyn dan 16 oed nad yw'n gymwys yn ôl safon *Gillick* (h.y. heb fod yn ddigon aeddfed a deallus i gydsynio drostynt eu hunain)

Manylion y claf (neu label wedi'i argraffu ymlaen llaw)

Cyfenw/enw teulu'r claf

Enwau cyntaf y claf

Dyddiad geni

Gwryw Benyw Anneuaidd Arall.....

Rhif GIG (neu fanylion adnabod eraill).....

Gofynion arbennig

(e.e. iaith arall/dull arall o gyfathrebu)

.....

.....

.....

(Pwyswch yn galed i sicrhau bod y 3 chopi yn gwbl glir)

Enw'r driniaeth arfaethedig (dylid rhoi esboniad cryno os nad yw'r term meddygol yn glir)

.....

.....

.....

Anesthetig Bydd y driniaeth hon yn cynnwys:

anesthesia cyffredinol ac/neu anesthesia rhanbarthol anesthesia lleol tawelydd dim

Unrhyw driniaethau ychwanegol a allai ddod yn angenrheidiol yn ystod y driniaeth

Dim disgwyl y bydd angen unrhyw driniaeth ychwanegol

Trallwysiad gwaed

Triniaeth arall (nodwch).....

Datganiad y gweithiwr iechyd proffesiynol (rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol fod â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

Gwybodaeth am y driniaeth

Rwyf wedi egluro'r driniaeth i'r plentyn ac i'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Yn arbennig, rwyf wedi esbonio:

Buddion y bwriedir eu cael:

.....

.....

Risgiau sylweddol, risgiau na ellir eu hosgoi neu risgiau sy'n digwydd yn aml, gan gynnwys unrhyw risgiau o arwyddocâd arbennig i'r claf hwn:

.....

.....

.....

Rwyf hefyd wedi trafod:

beth sy'n debygol o fod ynghlwm yn y driniaeth

unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn

buddion a risgiau unrhyw driniaethau eraill sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth o gwbl)

Rowch fanylion:

Rwyf wedi darparu'r daflen/ cd / dvd / dolen we isod (nodwch deitl y daflen a dyddiad ei chyhoeddi; teitl y cd/dvd a'r "fersiwn" os cafodd ei ddiwygio)

.....

Llofnod Dyddiad

Enw (LLYTHRENNAU BRAS) Teitl swydd

Rhif cofrestru proffesiynol (e.e. GMC, NMC, GDC, HCPC, ac ati):

Manylion cyswllt (os bydd y plentyn/rhiant am drafod opsiynau yn ddiweddarach).....

Datganiad y cyfieithydd/dehonglydd (pan fo'n briodol)

Rwyf wedi cyfleu'r wybodaeth uchod i'r plentyn ac i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant eithaf fy ngallu ac mewn ffordd y gallant ei deall yn fy marn i.

Llofnod Dyddiad

Enw (LLYTHRENNAU BRAS) Manylion cyswllt

Datganiad a llofnod y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant

Byddwn yn cynnig copi o'r ffurflen hon i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, cofiwch ofyn - rydym yma i'ch helpu chi a'ch plentyn. **Cewch newid eich meddwl unrhyw bryd**, gan gynnwys ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd y tu mewn i glawr blaen y Llyfr Ffurflenni Caniatâd yn nodi'r amgylchiadau lle gall rhywun fod â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn.

Rwy'n cadarnhau bod gennyf gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwn.

Rwy'n deall

- yr wybodaeth rwyf wedi'i chael am yr archwiliad neu'r driniaeth a ddisgrifiwyd yn y ffurflen hon.
- na allwch sicrhau y bydd rhywun penodol yn cyflawni'r driniaeth. Fodd bynnag, bydd gan yr unigolyn brofiad priodol.
- y caiff y plentyn a minnau'r cyfle i drafod manylion anesthesia gydag anesthetydd cyn y driniaeth, oni fydd natur frys y sefyllfa yn atal hyn. (Dim ond i blant sy'n cael anesthesia cyffredinol neu anesthesia rhanbarthol y mae hyn yn berthnasol.)
- mai dim ond os yw'n angenrheidiol i achub bywyd y plentyn neu i atal niwed difrifol i'w iechyd y darperir unrhyw driniaeth yn *ychwanegol* at y rhai a ddisgrifir yn y ffurflen hon.

Rwy'n cytuno i'r driniaeth a ddisgrifir yn y ffurflen hon.

Rwyf wedi cael gwybod am driniaethau ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol yn ystod triniaeth y plentyn. Isod rwyf wedi rhestru **unrhyw driniaethau nad wyf am iddynt gael eu rhoi** heb drafodaeth bellach (gall gwrthod rhai triniaethau olygu bod rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol gael cyngor cyfreithiol).

.....

.....

Rwyf yn cytuno/Nid wyf yn cytuno* y gall myfyrwyr fod yn bresennol yn ystod y driniaeth (*dilëwch fel sy'n briodol).

Llofnod Dyddiad

Enw (LLYTHRENNAU BRAS) Perthynas â'r plentyn

Cydsyniad y plentyn i driniaeth (os yw'r plentyn am lofnodi)

Rwy'n cytuno i gael y driniaeth rwyf wedi cael gwybod amdani.

Enw Llofnod

Dyddiad

Cadarnhau caniatâd

(i'w gwblhau gan weithiwr iechyd proffesiynol pan dderbynnir y plentyn i'r ysbyty ar gyfer y driniaeth, os yw'r rhiant/y plentyn wedi llofnodi'r ffurflen ymlaen llaw)

Ar ran y tîm sy'n trin y claf, rwyf wedi cadarnhau gyda'r plentyn a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn nad oes ganddynt unrhyw gwestiynau eraill a'u bod am i'r driniaeth fynd yn ei blaen.

Llofnod Dyddiad

Enw (LLYTHRENNAU BRAS) Teitl swydd

Rhif cofrestru proffesiynol (e.e. GMC, NMC, GDC, HCPC, ac ati).....

Rwyf yn cadarnhau fy mod am barhau â'r driniaeth.

Llofnod rhiant y claf Dyddiad

Enw (LLYTHRENNAU BRAS)

Mae'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant wedi tynnu caniatâd yn ôl

Gofynnwch i'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant lofnodi/rhoi'r dyddiad yma ac ysgrifennu **"DI-RYM"** ar holl dudalennau'r ffurflen.

Llofnod rhiant y clafDyddiad

Enw (LLYTHRENNAU BRAS)

Rhaid cadw'r copi uchaf o'r ffurflen hon gyda nodiadau'r claf.

Wedi cynnig copi i'r claf: copi Cymraeg / copi Saesneg / wedi'i wrthod gan riant y claf (rhowch gylch)